Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
Dyddiad y cyfarfod:	**19 Hydref 2018**
Swyddog Arweiniol:	**Gary Williams (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd)**
Awdur yr Adroddiad:	**Steve Price (Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd)**
Teitl:	**Ymgynghoriad ar Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2019/2020**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Bob blwyddyn mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cyhoeddi adroddiad ar lefel taliadau a chynhaliaeth i aelodau lleyg a chyfetholedig. Mae'r adroddiad blynyddol drafft bellach ar gael, ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi braslun o'i gynnwys.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n pennu swm y taliadau a'r gefnogaeth sydd ar gael i aelodau. Cyhoeddir penderfyniadau'r Panel mewn adroddiad blynyddol, a gyhoeddir yn gyntaf ar ffurf drafft er ymgynghoriad, ac mae'r drafft hwnnw ynghlwm wrth yr adroddiad.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn: adolygu adroddiad blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac yn ystyried ymateb i'r ymgynghoriad.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Cyhoeddodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol adroddiad blynyddol drafft y mis yma ynglŷn â'r taliadau a'r gefnogaeth a fydd ar gael i aelodau yn 2019 / 20. Bydd y Panel yn croesawu unrhyw sylwadau ar y cynigion drafft cyn y daw'r ymgynghoriad i ben ar 27 Tachwedd 2018.

4.2 Disgwylir i'r Panel gyhoeddi'r adroddiad blynyddol terfynol fis Chwefror 2019, gan bennu symiau'r taliadau a'r rheolau ar eu cyfer.

4.3 Mae'r Panel yn cydnabod fod y cyfyngiadau ariannol ar y sector cyhoeddus, ac yn enwedig felly awdurdodau lleol, wedi golygu na chadwyd y cysylltiad rhwng cyflogau cynghorwyr a chyflogau yng Nghymru ar gyfartaledd mewn blynyddoedd diweddar. Nid yw'r Panel am i'r sefyllfa honno barhau, ac felly mae'n cynnig codi'r tâl sylfaenol sydd ar gael i gynghorwyr sir 1.97% i £13,868 (cynnydd o £268).

4.4 Mae'r adroddiad drafft yn cynnig rhoi £532 ar ben cyflogau aelodau Cabinet. Mae'r Panel yn nodi bod deiliaid y swyddi hyn â chyfrifoldebau gweithredol sylweddol, ac nad ydynt yn cael cyflogau cystal â deiliaid llawer o swyddi eraill yn y sector cyhoeddus. Byddai aelodau Cabinet hefyd yn cael y codiad a gynigir yn y cyflog sylfaenol.

4.5 Mewn blynyddoedd diweddar penderfynodd y Panel y dylai taliadau i benaethiaid dinesig a dirprwy benaethiaid dinesig gael eu pennu ar un o dair lefel ar gyfer pob swydd, a bod pob awdurdod lleol yn rhydd i ddewis pa lefel oedd fwyaf addas. Mae'r adroddiad drafft yn argymell diddymu'r dewis o lefelau a phennu taliadau i gadeiryddion cynghorau ar yr un lefel â chadeiryddion pwyllgorau (£22,568 gan gynnwys y cyflog sylfaenol), ac o ran yr elfen ddinesig mae hynny £500 yn fwy na'r tâl sydd ar gael eleni.

4.6 Mae'r Panel yn cynnig pennu cyflog o £17,568 ar gyfer dirprwy benaethiaid dinesig (is-gadeiryddion cynghorau). O ran yr elfen ddinesig byddai hynny'n gynnydd o £3,000 o gymharu ag eleni.

4.7 Nid yw'r adroddiad drafft yn cynnig newid y cyflogau uwch ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau, ond byddai cadeirydd pob pwyllgor yn cael y codiad yn y cyflog sylfaenol.

4.8 Yn ôl Penderfyniad 6 yn yr adroddiad blynyddol drafft:

'Mae'r Panel wedi penderfynu y dylai pob awdurdod sicrhau, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, bod ei holl aelodau etholedig yn cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai pob aelod etholedig gael cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngrwyd digonol i'w galluogi i gael mynediad electronig at wybodaeth briodol.'

4.9 Mae'r Panel hefyd yn nodi ei fod yn disgwyl i'r holl aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio gael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol; dylai cymorth o'r fath fod heb gostau i'r aelod unigol.

4.10 O dudalen 40 o'r adroddiad blynyddol ymlaen, mae'r Panel yn cynnig newidiadau yn nhaliadau aelodau o gynghorau dinas, tref a chymuned. Mae Tabl 9 ar dudalen 47 yn rhoi crynodeb o'r cynllun taliadau a gynigir.

4.11 Yn Atodiad 1 ceir llythyr oddi wrth Gadeirydd y Panel, ac yn Atodiad 2 mae copi o'r adroddiad blynyddol drafft. Dilynwch y ddolen gyswllt isod i weld y ddogfen ar-lein a chael manylion y drefn ymgynghori:

https://gov.wales/irpwsub/home/publication-reports/draft-annual-report-2019-20/?lang=cy

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Dim cyfraniad uniongyrchol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r ymarfer ymgynghori. Bydd unrhyw gynnydd yng nghyflogau neu gostau cymorth aelodau o ganlyniad i benderfyniadau terfynol y Panel yn gorfod cael ei ariannu drwy gyllidebau'r Cyngor.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Mae ymateb i ymgynghoriad y Panel yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Hysbysir pob aelod o'r eitem hon a bydd croeso i bob un ohonynt ddod i gyfarfod y Pwyllgor. Cyflwynir adroddiad ar y penderfyniadau terfynol i'r Cyngor llawn dechrau'r flwyddyn nesaf.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Dim angen.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae gan y Panel awdurdod i bennu lefelau taliadau i aelodau a phenderfynu ynglŷn â rhai materion o ran cefnogaeth. Nid oes unrhyw risgiau wedi'u canfod ynghlwm â'r materion sydd yn yr adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.